## Sgwrs Rhwydwaith Cenedlaethol

# Sgwrs tegwch a chynwysoldeb: Ebril 2024

## Adroddiad ar y sgwrs

### Pam mae tegwch a chynwysoldeb yn bwysig?

177 ymateb





### 3 gair i ddisgrifio’r sgwrs tegwch a chynwysoldeb heddiw


58 ymateb





# Sgwrs Rhwydwaith Cenedlaethol


## Trosolwg adborth: 25 o ymatebion




# Sgwrs Rhwydwaith Cenedlaethol

## A oes gennych unrhyw adborth arall ar eich profiad yn y sgwrs hon, neu sut y gallem wella sgyrsiau yn y dyfodol?

Ymatebion:

- Rwy'n credu bod popeth wedi'i wneud yn dda iawn. Roedd yn ymddangos bod y cyfranogwyr yn ymgysylltu â'i gilydd ac yn caniatáu i sgyrsiau lifo. Roedd y fideos yn ysgogol ac yn ddefnyddiol wrth roi hwb i fwy o sgyrsiau. Roedd grŵp amrywiol yn bresennol, a oedd yn gadarnhaol.
- Roedd y sesiwn hon yn wych. Da clywed gan gydweithwyr proffesiynol eraill a rhannu ymarfer.
- Fel ymarferydd meithrin doeddwn i ddim yn teimlo fy mod yn rhan o'r sgyrsiau, roeddent yn canolbwyntio mwy ar yr ysgol. Roedd problemau gyda thechnoleg hefyd a phob tro y ceisiais siarad neu gymryd rhan yn y sgwrs, roedd rhywun arall yn siarad ar draws ac nid oedd yr hwyluswyr yn ymateb i'm negeseuon yn y ‘chat’. Roeddwn i'n teimlo fel pe bawn i'n eistedd yn gwylio sgwrs rhywun arall. Roedd y cwestiynau hefyd wedi'u hanelu at ysgolion fel awduron eu cwricwlwm eu hunain. Mae'n drueni, achos dwi'n meddwl y gallai ysgolion ddysgu lot o'r arfer o fewn meithrinfeydd.
- Ar hyn o bryd rydw i ar secondiad i'r GIG o fy rôl yn ADY, Wrth wrando ar y drafodaeth fe wnaeth fy nharo faint mae ysgolion yn ei wneud i hwyluso cynhwysiant, nid yn unig yn y cwricwlwm ond 'parodrwydd ar gyfer dysgu', mae ysgolion yn llenwi'r bylchau sy'n ehangu ar draws y system o ran tlodi a mynediad.
- Rwy'n teimlo y byddai'r diwrnod wedi bod yn fwy effeithiol pe bai gan y grwpiau gyd-destunau ac ystod oedran tebyg gyda'i gilydd (uwchradd ac ati). Gan y byddai'n arwain at sgyrsiau a syniadau mwy perthnasol y gellid eu defnyddio.
- Doedd yr hwyluso ddim yn ddrwg. Roedd yn iawn. Diffyg angerdd a brwdfrydedd, ond mae hynny'n anodd drwy sgrin.
- Byddai'n ddefnyddiol cael y cwestiynau ymlaen llaw fel bod modd fyfyrio arnynt o ddifri cyn y trafodaethau. Mwynheais yn fawr y cyfle i feddwl a thrafod gydag ymarferwyr eraill.
- Byddai wedi bod yn ddefnyddiol derbyn y cwestiynau trwy e-bost cyn y trafodaethau Rhwydwaith Cenedlaethol gan alluogi pawb i gael mwy o amser i ystyried ein hysgolion unigol a gallu trafod pob cwestiwn gyda gwybodaeth flaenorol gan fy mod yn credu y byddai'r sgyrsiau wedi bod ychydig yn haws i'w dilyn a gallai ysgolion barhau â sgyrsiau hyd yn oed pe na bai technoleg yn gweithio. Hefyd, byddai hyn wedi annog mwy o gyfranogiad gan yr holl randdeiliaid, gwnaeth hwyluswyr annog pawb i gyfrannu a oedd yn gadarnhaol.

## Sgwrs Rhwydwaith Cenedlaethol

- Mae'n amlwg bod hyn yn rhywbeth sydd angen llawer mwy o waith ar draws y sector gofal plant ac addysg. Deall beth ydym yn ei olygu a ffyrdd ymarferol o gefnogi arfer
- Roedd unigolyn yn domineiddio’r sgwrs yn ein grŵp nigan siarad am eu profiad ac nid y materion ehangach i bob dysgwr, a doedd yr hwyluswyr ddim yn gallu eu dylanwadu.
- Grwpiau llai o bosibl
- Mae Zoom ychydig yn llai hylaw na Teams, ond mae'n debyg mai dyma'r hawsaf i gynnwys pawb. Gellid anfon deunydd/cwestiynau ymlaen llaw i alluogi'r mynychwyr i baratoi syniadau/adnoddau. Diolch am y cyfle gwych i drafod a rhannu syniadau.

## Beth fyddai'n eich helpu i wireddu eich cwricwlwm yn eich cyd-destun?

Ymatebion:

- Rhestrau chwarae astudiaethau achos, copïau o gynlluniau gweithredu enghreifftiau da, ac enghreifftiau o gynllunio tymor canolig gan ysgolion lle mae'r agwedd hon ar CiG yn gweithio'n dda.
- Mae cynllunio cwricwlwm yn ddrws cylchdroi sy'n datblygu'n barhaus! Yn newid gydag anghenion gwahanol ysgolion, cyd-destunau, carfannau wrth i ni i gyd fyw mewn byd sy'n newid yn barhaus lle rydym i gyd yn ymdrechu yn ein hysgolion ar gyfer Tegwch a Chynwysoldeb i ddiwallu'r anghenion a sicrhau newid cadarnhaol yn ein gwahanol gymunedau. Rydym wedi ysgrifennu astudiaeth achos sydd bellach ar restr chwarae Tegwch a Chynwysoldb ar Hwb. Bydd hyn yn siŵr o newid dros amser gyda'r anghenion gwahanol wrth i ni barhau i fonitro a gwerthuso cynllun ein cwricwlwm dros y blynyddoedd i ddod!
- Cyfleoedd pellach i gydweithio ag ysgolion eraill i rannu a thrafod syniadau.
- Mwy o gefnogaeth gan fy ALI nad yw'n ymddangos eu bod yn sylweddoli'r hyn yr ydym yn ceisio'i wneud yn ein hysgol
- https://agendaarlein.co.uk/welcome mae hwn yn adnodd gwych sydd ar gael i ysgolion ac yn rhywbeth rwyf wedi ei hyrwyddo yn fy lleoliad fy hun.
- Rwy'n cefnogi ysgolion yn y maes hwn felly byddai sgyrsiau parhaus a dod at ein gilydd i sgwrsio am y pethau da a drwg yn fuddiol. Diolch!
- Mwy o gyllid i ganiatáu mynediad at fwy o adnoddau ac ymweliadau â'r ardaloedd lleol.
- Mwy o gyfleoedd i gasglu syniadau drwy ymweld ag ysgolion eraill. Mwy o eglurder gan y sir/Llywodraeth Cymru ynghylch y grantiau a'r ffynonellau cyllid sydd ar gael.

## Sgwrs Rhwydwaith Cenedlaethol

- Byddai'n ddefnyddiol rhannu astudiaethau achos wrth symud ymlaen a chael llwyfan i rannu arfer da. Byddai hefyd yn ddefnyddiol dod o hyd i gyfleoedd i weithio gydag ysgolion mewn cyd-destunau tebyg.

## Trosolwg mynychwyr

Cyfradd heb fynychu:

- 245 wedi cofrestru
- 140 mynychodd
- 43% Cyfradd heb fynychu